

## CYFFES FFYDD

### 26. Am ailenedigaeth.

Y mae ailenedigaeth yn cynnwys cyfnewidiad grasol a goruwch-naturiol o waith Ysbryd Duw yn yr holl bobl a gedwir i fywyd tragwyddol, trwy eu gwneuthur yn gyfranogion o'r dduwiol anian (a), yr hon sydd yn egwyddor o fywyd sanctaidd yn gweithredu yn effeithiol yn yr holl ddyn, ac am hynny yn cael ei galw "y dyn newydd" (b). Y mae yr anian sanctaidd, a dderbynnir yn yr ailenedigaeth, yn gweithredu yn yr holl rai a wneir yn gyfranogion ohoni yn llwyr wrthwyneb i bob llygredd, ac yn ôl Duw, yr hwn a'i creodd (c). Y mae'r cyfnewidiad hwn yn dwyn yr holl ddyn dan argraff fywiol o sancteiddrwydd Duw, megis plentyn yn dwyn delw ei dad (d). Duw yn unig yw awdur y cyfnewidiad hwn. Mae'n cael ei weithio yn gyffredinol trwy y gair; a gosodir ef allan yn yr Ysgrythurau dan amrywiol enwau, megis bywhau, ffurfio Crist yn y galon, cyfranogi o'r dduwiol anian, ac enwaedu y galon (e). Diben y cyfnewidiad hwn yw cael dynion i ogoneddu Duw, trwy ddwyn ffrwythau cyfiawnder, a phuro yr enaid, fel y byddo'n addas i fwynhau cymdeithas â Duw yn dragwyddol (f).

### **26. Of Regeneration.**

*Regeneration consists in a gracious and supernatural change, wrought by the Spirit of God in all those who are saved to eternal life, by making them partakers of the divine nature (a), which is the principle of a holy life, effectually working in the whole man, and for that reason called "the*

*new man” (b). The holy nature received in regeneration acts in all those who are made partakers of it in direct opposition to every form of corruption, and after God who created it (c). This change produces in the whole man a lively impress of God’s holiness, as a child bears the image of his father (d). God alone is the author of this change. It is generally wrought by means of the word, and is set forth in Scripture under several names; such as quickening, forming Christ in the heart, partaking of the divine nature, and circumcising the heart (e). This change is wrought in order that men may glorify God by bringing forth the fruits of righteousness, and purifying the soul, so as to be meet to enjoy fellowship with God for ever (f).*

**(a) Ioan/John 3:3,5; 2 Cor. 5:17; 2 Pedr/2 Peter 1:4; Gal. 6:15.**

**(b) Eff./Eph. 4:24; 2 Cor. 5:17 gwêl/see (a).**

**(c) 2 Pedr/2 Peter 1:4 gwêl/see (a); Gal. 5:24; Col. 3:9-10; 1 Ioan/1 John 3:14, 5:1,18; Eff./Eph. 2:10; Phil. 4:13; Esec./Ezek. 36:27; Rhuf./Rom. 6:13-14; Heb. 2:12.**

**(d) Math./Matt. 5:48; 2 Cor. 3:18; Rhuf./Rom. 8:29.**

**(e) Ioan/John 1:13; 1 Pedr/1 Peter 1:3, 23; Titus 3:5; Esec./Ezek. 36:26; Eff./Eph. 2:1,4-5, 4:24; Iago/James 1:18; 1 Cor. 4:15; Philem 1:10; 2 Cor. 5:17 gwêl/see (a).**

**(f) 1 Ioan/1 John 3:9: 5:4; Rhuf./Rom. 8:17.**